Atodiad 1

# Proffil Rôl Cynrychiolwyr Academaidd y Myfyrwyr

## Wedi'i gefnogi gan

- Swyddogion Sabothol
- Tîm Llais y Myfyriwr
- Cydlynydd Cynrychiolwyr y Myfyrwyr

## Amcan y Rôl:

Cynrychioli diddordebau academaidd y myfyrwyr ar eu cwrs, casglu adborth i'w drafod gyda staff yr ysgol a bod yn rhan o wella unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r cwrs.

## Cyfrifoldebau

- Mynychu hyfforddiant gydag Undeb y Myfyrwyr
- Mynychu Paneli Staff-Myfyrwyr (SSPs)
- Hyrwyddo eich rôl ymhlith eich cyfoedion
- Casglu adborth cadarnhaol ac adeiladol gan fyfyrwyr eraill
- Cydweithio â staff i wneud newidiadau cadarnhaol i'ch cwrs
- Cau'r cylch adborth drwy adrodd yn ôl i fyfyrwyr am unrhyw ddiweddariadau
- Cyfeirio myfyrwyr at wasanaethau defnyddiol y brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr
- Gweithio gyda'ch Cydlynydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr ar ymgyrchoedd
- Ymgysylltu â gweithgaredd Undeb y Myfyrwyr dros y flwyddyn

## Cyfleoedd i Ddatblygu

- Derbyn tystysgrif
- Ymgysylltu â Gwasanaeth Datblygu Sgiliau Undeb y Myfyrwyr
- Dod yn Bencampwr Lles
- Ymuno â Phwyllgor Gweithredol y Swyddogion Sabothol
- Mynd i Gynhadledd Cynrychiolwyr Academaidd
- Arloesi prosiect ysgol
- Enwebu dy hun yn etholiadau Undeb y Myfyrwyr
- Cael eich enwebu ar gyfer Gwobr Cyfoethogi Bywyd Myfyrwyr

## Gwerthoedd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd

**Arweinyddiaeth gan Fyfyrwyr:**

Byddwn ni'n sicrhau bod myfyrwyr yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel ar draws y sefydliad, ac yn teimlo bod ganddynt y grym i greu newid

**Cynhwysiant**

Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n holl aelodau o fyfyrwyr, drwy leihau'r rhwystrau i gymryd rhan ac estyn allan i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol

**Partneriaeth**

Byddwn ni'n sicrhau ein bod ni'n datblygu partneriaethau effeithiol gyda sefydliadau sy'n ein helpu i gyflawni ein blaenoriaethau strategol.

**Amrywiaeth**

Byddwn yn dathlu amrywiaeth ein staff ac aelodaeth myfyrwyr, a byddwn yn cefnogi myfyrwyr i fod yn llais dros newid mewn anghyfiawnderau heriol ledled addysg a chymdeithas.

**Yn eich rôl fel Cynrychiolydd Academaidd, NID oes disgwyl i chi ddelio â:**

- Anghydfod rhwng myfyrwyr a staff academaidd e.e. aflonyddu,
- Gweithdrefnau ffurfiol e.e. methiannau arholiadau, apeliadau academaidd, gwrandawiadau unigol, amgylchiadau esgusodol, cymhwysedd i ymarfer
- Ymholiadau ariannol, cyllido
- Problemau lles, materion iechyd a phersonol e.e. tai, cyflogaeth a mewnfudo.

Os bydd myfyriwr yn dod atoch gyda phroblem, ac rydych yn ansicr i ble y dylid ei gyfeirio, cysylltwch â studentreps@caerdydd.ac.uk.